Bwletin Llên Natur

Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas

Rhifyn 83
Ionawr 2015



Gwledd o aeron i'r fronfraith. Tachwedd 4ydd, 2014 Pen y Gogarth **Alun Williams**

Dim yn siwr lle i ddechrau gwledda debyg. **Olwen Evans**


## Waun Elai

16 Mehefin 1762: *Often cloudy some rain in ye E. wind S.W. and West. hay mowed by Wrenston and on Ely moor.*

**Dyddiadur William Thomas, Michaelston-Super-Ely, Caerdydd**

Chwi drigolion ardal Taf-Elai: lle yn union mae Ely Moor, a pha fath o le sydd yno rwan? Oes yna olion y waun o hyd? A fedrwch ddychmygu caeau o wair yno?

## Trochydd yn bwyta octopws



Trochydd mawr', Y Foryd, Caernarfon, Chwefror 2014. Alun Williams

Mi gyfrais 7 llamhidydd ar y 26 Tachwedd, o Bontllyfni ynghyd â 34 trochydd Mawr a 75 trochydd gyddfgoch. Roedd un o'r trochyddion mawr yn ceisio bwyta octopws – gyda'r octopws yn protestio yn arw iawn! **Rhys Jones**

### Dau enfys dros fryngaer Maes y Gaer



Tynnwyd y llun ar y 7fed Mehefin 2014 tua 1 o'r gloch yn nyffryn Abergwyngregyn gan **Aziz Maki**

Pam fod y parth glas o dan yr enfys isaf yn olau ar parth uwch ei ben yn dywyll? Ewch yma am ateb. Mae'n gymhleth ond mae a wnelo ag ongl pelydrau'r haul fel y mae'n taro'r diferion o ddŵr yn yr awyr.

### Pry tarian blewog?



Credu mai *Dolycoris baccarum* ydio. *Hairy shieldbug* yn Saesneg - ond ddim llawer o flew yn y golwg. Tynnwyd yn Mirabeau, Provence, Tachwedd 6, 2014.

**Llun: B. Falcone (sylw Luned Meredith)**

*Dolycoris baccarum is a common British species, but I can't say that this French specimen is it. There may be similar species on the continent.* **John Bratton**

### Brain yn nythu'n gynnar?

Waunfawr, 4 Rhagfyr 2014: 2 nyth ydfran yn cael eu codi yn nghyffiniau Antur Waunfawr ddoe (4 Rhagfyr) - yn gynnar iawn? Nythod arferol y tymor cynt wedi chwalu. Tawel heulog ond oer a barrug ysgafn. **Haydn Jones**

Waunfawr 23 Rhag 2001: ydfrain yn dechrau nythu tua heddiw yn Antur Waunfawr, dau nyth wedi ei gychwyn ac un par yn gwneud stumiau caru **DB**

Dyma'r cofnod cynharaf yn y Tywyddiadur o ydfrain yn dechrau nythu:

Llandudno 25 Ionawr 1916: *Baro. 29.90. West wind still strong.....rooks are commencing to pair.*

**Dyddiadur Harry Thomas,**

### Rhaeadr y Graig Lwyd



12 Tachwedd 2014. Ar y graig sydd yn hollti'r rhaeadr, fe welwch olion hen ysgol eogiaid sydd yn dyddio o Oes Victoria, adeiladwyd ysgol newydd yn 1993. **Alun Williams**

### Gwiwer goch, Malltraeth, 14 Tachwedd



Roedd sawl gwiwer yn dwyn hadau a chnau o flychau bwydo adar. Nid yn hawdd cael llun oherwydd golau gwael yn y goedwig.

**Alun Williams**

Ydi'r lliw glaslwyd hyfryd yma gyda cheseiliau coch yn arferol ar bob gwiwer yn yr hydref a'r gaeaf tybed?

### Cloddfa diweddar Rhuddgaer, Ynys Môn

Cyhoeddwyd adroddiad (darllennwch **yma** am grynodeb) am gloddfa tŷ gwerinwyr tlawd o'r 12ed. ganrif wrth aber yr afon Braint, ger Rhuddgaer, Môn. Cafwyd bod y tir wedi ei losgi a'i chlirio o goed celyn cyn codi'r tai, bod y caeau o gwmpas wedi newid o gnydau i borfa, bod darn o siert du cain ar un o'r waliau, a bod rhan o'r tir wedi ei erydu gan y môr gan stormydd y 14eg ganrif ar ôl i'r perchnogion gefnu ar y lle.

## Clogwyn tân Lyme Regis




Cerdyn post yn dangos “Llosgfynydd Lyme” yn llosgi yn 1908 (eiddo Jane Evans). Cychwynnodd y tân ohono’i hun yn dilyn tirlithriad (ddiwedd Ionawr?) a ddygodd sialau bitwminaidd hylosg i’r wyneb.

*CLIFFS ON FIRE. STRANGE DORSET PHENOMENON. ....The changeable weather, with its up and down temperature, is stated to be primarily responsible.*

Cardiff Times 1 Chwefror 1908

**2015 yn gofiadwy i loynnod egsotig... efallai**
Gyda’r fantell dramor wedi magu yn y Waunfawr yn 2012, ac eleni, y trilliw melyngoes, y trilliw mawr a’r glöyn cynffon gwennol cyfandirol wedi magu yn ne Lloegr , a llawer yn gweld y glöyn llwydfelyn ym mis Tachwedd, mae 2015 yn argoeli’n dda ar gyfer ychwanegu rhywogaethau newydd i fagu’n barhaol yn Nghymru a Phrydain - os cawn ni aeaf mwyn (meddai’r Gymdeithas Gloynnod Byw)

**Aeron ffesant**
....neu gwyddfid yr Himalaia, *Leycesteria formosa*. Ewch **yma i weld trafodaeth** helaeth am darddiad, blas a defnydd y llwyn gardd cyffredin hwn sydd yn ymledu i’r gwyllt.



## Goresgyniad byddin y durtur dorchog



Llun: Vivien Finn

Ydych chi yn hanner cant oed neu’n ieuengach? Os felly, go brin y byddwch yn cofio’r chwyldroad bach adaryddol oedd yn cymryd lle yn nechrau 60au’r ganrif ddiwethaf. Cafodd ei nodi gan un o gyfraniadau **“Country Diary”** y Guardian yn Nhachwedd 1964. Prin bod llawer ohonom yn gwybod erbyn hyn mai newydd ddyfodiad o’r cyfnod hwnnw yn wreiddiol o’r dwyrain pell yw’r **durtur dorchog** sydd bellach yn gymaint rhan o fywyd ein gerddi fel petai wedi bod gyda ni erioed. Mwy am y durtur hon ym Mwletin **49**.

## Gwalch ym Minffordd



Wedi rhoi bwyd allan i'r adar y dydd o'r blaen [22 Tachwedd 2014, Minffordd) a beth ymddangosodd ymhen tua awr ond hwn (gwalch glas/brown?!) reit tu allan i'r ty. Bu'r bwrdd bwyd yn dawel am sbel wedi i'r gwalch saethu oddi ar y safle ar ôl tua munud (digon o amser i mi nôl y camera bach) ar drywydd aderyn tô druan. Hyd yma dyma'r unig aderyn anghyffredin rydym wedi ei weld eleni. Byddai Ted Breeze yn dweud mai ar adegau pan fo bwyd yn brin y byddai'r gwalch yn gwneud hyn?

**Ken Robinson**

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd (Rhif Elusen: 1126027).
Mae Prosiect Llên Natur ar Facebook a Twitter.
Cysylltwch â ni trwy llennatur.yahoo.com.

## Hanner canrif yn ôl (plys 2!)



Hogia Llanbêr ar Lyn Padarn ynghanol gaeaf caled 1963. **Trwy law Gareth Roberts**


## Basgedi mwyn Llanberis

Llanberis: fore Sul (9 Mehefn 1912) aeth criw o fyfyrwyr daearyddiaeth o Sir Gaer am dro drwy pentref Llanberis, gan edmygu'r gerddi ar hyd y brif stryd. Yna ceir y disgrifiad â ganlyn: "*we saw baskets on wires from the mines....*"

**Traethawd coleg Annie Robinson "A Week's Work in Wales"**
**(o Eco'r Wyddfa Hydref 2009)**

Beth tybed oedd y "*baskets on wires*"? Rwy'n amau mai'r bwcedi mwyn haearn ar weiar róp o Fetws Garmon oeddynt, ac mai yng nghyffiniau Llyn Wil Boots roedd y gors...Yn dilyn, bu'r cwmni yn gwylio mwyn haearn yn cael ei lwytho o bwcedi i dryciau trên i Wolverhampton i'r gweithfeydd dur yno. **Dafydd Whiteside**

A dyma lun o'r basgedi (chwith uchaf) a ddaeth i'r fei trwy law Gareth Roberts. Mae olion y chwareli mwyn haearn (man cychwyn y basgedi) i'w gweld yn glir ar ochr Moel Eilio uwchben eglwys Betws Garmon ond dim ond ambell sylfaen sydd ar ôl o'r weiar róp bellach.



Darllenwch fwy am waith Annie Robinson yn **Rhifyn 22** a **23**

## Ffoes Noddyn ynteu Y Glyn?

Cafodd Y Glyn (*Fairy Glen*) .. ei grybwyll gan y teithiwr, Edward Llwyd, yn 1699.

**Taflen Cyngor Conwy**

Nid "Noddum" gyda llaw fel yr ymddangosodd yn y Bwletin diwethaf

## Cyfran yr angylion....

...parddu'r whisgi neu <u>*Baudoinia compniacensis*</u>: "*has been observed on a wide range of substrates in the vicinity of distilleries, spirits maturation facilities, bonded warehouses, and bakeries. The fungus is a habitat coloniser with a preference for airborne alcohol...*"



Dyma gangen (uchod) o fasarn wedi ei goloneiddio gan barddu'r whisgi. **(Wikipedia)**

Cafodd *B. compniacensis* ei astudio gyntaf yn 1872 gan Michel Charles Durieu de Maisonneuve a Chasimir Roumeguère ar ôl sylwi ar y llwydni ar waliau a theiliau to ger y distylltai yn Cognac, Ffrainc. Meddai'r meicolegydd y Dr Gareth Griffiths "Dywediad o'r Alban ar gyfer y ganran o'r chwisgi sydd yn anweddu ac yn bwydo'r parddu hwn yw "*The Angel's Share*". Mae'n barddu o bwys economaidd fel y gwelir **yma**

## Tymheredd copa'r Wyddfa Gorffennaf 1795

*Snowdon: "The derivation of the name is evident, and it has been said, though erroneously, that snow is to be found all the year round in the hollows near the top of the mountain: the first snow that appears on it is usually about the beginning of November, and it is seldom entirely melted till the first or second week in June. Even in the middle of summer, however, the temperature of the summit of Snowdon is very low. On the morning of July 5, 1795, just after sun-rise, I observed the thermometer at 34* [ºF, = 1.1ºC]*, and at one in the afternoon this day it stood at 48 [ºF = 8.9ºC], while in the vale of Beddgelert, at seven in the morning it was as high as 62 [ºF = 16.7ºC]."*

**"Arthur Aikin "A Tour in North Wales"**

"Blwyddyn argyfyngus oedd 1795, y cnydau'n wael a'r gaeaf yn erwin" **Mary Ellis**

Meddai'r arbenigwr Jeremy Williams: *On a poor summer day at the summit it wouldn't be unusual for the temp to be around 1C at dawn, so that could have been 11ºC down in Beddgelert. ....As you know, I have recorded snow from 7th September to mid-May in the last 15 years. Back then, it would have been common for the shaded patches to last well into, and possibly right through, a poor summer.*

Mae *Tour* Aikin i'w weld yn llawn ar GoogleBooks

## Dyddiadur hela Munro Edwards, Dolserau



Yn y cyfnodau tra roedd o gartref yn Nolserau, Dolgellau bu Edwards yn treulio rhan o bob dydd bron, yn aml o fore gwyn tan y nos, yn hela a physgota . Mae Chris Simpkins wedi crynhoi ei fywyd cymdeithasol bonedd Fictorianaidd yn Nolgellau'r 1870au (i'w gyhoeddi yn fuan yng nghylchgrawn Cymdeithas Eryri) ac E. Linda Tomos a Merfyn W. Tomos yng Nghylchgrawn Cymdeithas Hane, Sir Feirionnydd (Cyfrol XV: Rhan 3, 2008). Y gorchwyl rwan ydi trawsgrifio'r dyddiaduron i'r Tywyddiadur ar wefan Llên Natur er mwyn paratoi crynodeb arall, y tro yma o'r tywydd a'r bywyd a gofnododd, (ac a laddodd) yn helaeth. Er mwyn deall yn well filltir sgwâr y bonwr craff hwn mae'n rhaid ceisio dehongli gorau ag y medrwn y lleoedd y cyfeiriai ato wrth ddisgrifio ei orchestion hela. Er enghraifft dyma gofnod o ardal Talyllyn.

*Wednesday July 14th Heavy rain most of the day from SE. I read all the morning till 1.30, when after lunch I went out with my rod up the Wnion, but we had no sport till the river came down in heavy flood: when I caught some trout at Dolgun, but did not meet a Sewin: but the Minor who had been at Talyllyn all day hooked one at the Ford. We all fished till very late, and did not set down to dinner till 10 minutes to nine. Rain continued this evening. Trout LE (Talyllyn) 27, Trout (Wnion)* [cofnod yn darfod heb rif]

Cyfeiriodd yma at "Ford" - ond lle yn union oedd y rhyd hon? Roedd Edwards yn arddel ei enwau ei hun yn aml iawn ar y llecynnau y bu'n hela o'u cwmpas. Neu mi gamsillafodd lawer o enwau digon cyfarwydd i bobl yr ardal heddiw. A sgwn i lle roedd y *Railings* a'r *Long Hat* yn y dyfyniad hwn o 1875, rhywle ar yr afon Eden ger Tyn y Groes: ."*....I losing a very good fish at the "Railings". The Minor caught one of 2 [and 3 quarter pounds] in the "Long Hat"* '.
Cyfeiriodd Edwards hefyd at Llynnoedd *Abbi* (Ybi), *Cynnwych* (Cynwch), *Llymry* (Llymbran?) a Litter y gwyn!.

## Coed hynafol dros y byd

... yma, gan gynnwys ywen mynwent Nanglyn ("Y Pulpud"). Hanes pellach yn yr Oriel

## Y *Jenny Spinner*

Mehefin 8ed 1875: *It was very fine and bright all day, but a strong westerly wind was blowing. I had a couple of hours fishing before breakfast but did not good [sic] and I began again at 10 o`clock and fished very hard all day. The trout rose badly, but I had some luck in getting hold of a good trout of 1lb 3oz. My other fish were also a good size, running up to 3/4lb pound. Davies left me at six o`clock this evening, and drove home, as he wanted to be at his house this evening. It was a beautiful evening; and when the breeze dropped the trout began rising well but I did little good. We dined at 7o`clock and fished for eels afterwards, but caught none. There were clouds of a minute fly along the side of the Lake which from a distance resembled white smoke: the fly is I think the Jenny Spinner: and they say it is a sure sign of rain. Trout (Talyllyn) 8 (1) 1lb 3oz Flies: yellow dun, red spinner Partridge and [grew]*

**Dyddiadur hela CEM Edwards, Dlserau, Dolgellau**

Gan ei fod wedi darogan glaw, gwerth yw cofnodi fod Edwards wedi profi gwynt cryf y ddau ddiwrnod wedyn gyda chawodydd!
Mae'n debyg yn ôl y pysgotwyr mai at y gleren Fai *Paraleptophlebia moliis* y cyfeiriodd. Tybed beth mae pysgotwyr Cymreig yn galw y plu hwn.

## Craith mellten?



Aethom am dro y pnawn yma [ddechrau mis Rhagfyr?] ar hyd yr afon Dwyfor (i fyny o fedd LG). Gwelsom goeden fawr efo anferth o "graith" ffres arni - o'r gwaelod, reit i fyny'n uchel. Tydym erioed wedi gweld y fath beth... Ai ôl cael ei tharo gan fellten oedd hyn tybed??? **Gareth Jones**

Pryd oedd y stormydd mellt a tharannau diwethaf yn nghyffiniau Llanystumdwy tybed? Ai coeden pinwydd yr Alban ydyw? Bu hwn yn destun cryn drafod yng nghyfarfod Cymdeithas Ted Breeze Jones, gydag ambell un yn gyndyn o dderbyn mai mellten oedd yn gyfrifol.

Dyma rai credoau am fellt yn taro coed: 1) mae'r fellten pob amser yn taro'r brig, 2) mae'r fellten yn "dewis" y goeden uchaf pob tro, 3) mae'r fellten yn gadael ôl llosgi. Ydi rhain yn gywir pob amser, a beth yw'r dystiolaeth? A beth yw'r dystiolaeth yn yr achos hwn.

# Rhyfeddodau'r hydref ar ein glannau

## Siarc Mako prin ar draeth y Bermo



Pysgotwr lleol, Aeron Griffith hefo'r pysgodyn. Tynnwyd y lluniau yma gan Rod Davies. Mwy o luniau yn yr Oriel, neu ar wefan Hugh Roberts (a diolch iddo am roi'r "sgŵp" hwn i Llên Natur). Dyma gyfeiriad ei wefan:
https://www.flickr.com/photos/abermaw/sets
Buan daeth y Daily Mail ar drywydd y stori!
Un o deulu'r corgwn môr ydi hwn (*Isurus oxyrinchus*). Fe gafodd un ei ddal gan yr actor a'r pysgotwr Julian Lewis Jones yn Sir Benfro ym mis Gorffennaf 2013.

## Homar o slefren-fôr fawr.....



......yn Ninas Dinlla y mis d'wytha [Hydref 2014]. 'Do'dd o ddim yn las o gwbwl - o'dd o'n glaer wyn - ond o'dd o'n hollol ar 'i ben i lawr, felly fedrwn i ddim ei weld o'n glir.

**Mari Gwilym**

Y cap glas [*Rhizostoma octopus*]... gweler yr wyth tentacl yn glir yn y ddelwedd, dyma'r rheswm am yr enw gwyddonol: *octopus*, wyth troed.

**Sion Roberts**

## Morfil sberm corachaidd ar draeth Niwbwrch

Gweler yma am **y stori** o ddarganfod y creadur ar 20 Tachwedd 2014 yn fyw, ac yma am **hanes y rhywogaeth**. Dyma ddyfyniad o'r ail:




*The whale makes very inconspicuous movements. It rises to the surface slowly, with little splash or blow, and will remain there motionless for some time. In Japan the whale was historically known as the "floating whale" because of this. Its dive is equally lacking in grand flourish - it simply drops out of view. The species has a tendency to back away from rather than approach boats. Breaching has been observed, but is not common. Pygmy sperm whales are normally either solitary, or found in pairs but have been seen in groups of up to six. Dives have been estimated to last an average of eleven minutes, although longer dives of up to 45 minutes have been reported.*

*Analysis of stomach contents suggests that pygmy sperm whales feed primarily on cephalopods, most commonly including bioluminescent species found in midwater environments. The most common prey are reported to include glass squid, and lycoteuthid and ommastrephid squid, although the whales also consume other squid, and octopuses. They have also been reported to eat some deep-sea shrimps, but, compared with dwarf sperm whales, relatively few fish.*

Llun arall o'r Oriel **yma**


Yn anffodus canfu Rhys Jones y morfil **yn farw** wythnos yn ddiweddarach ar draeth Dinas Dinlle. Dyma Rhys: "Mi ddois ar ei draws tra'n cyfri trochyddion 26/11/2014 ar draeth Dinas Dinlle (SH419558). Roedd hi'n amlwg yn syth beth oedd o gan fod y newyddion amdano wythnos dwytha ar draeth Niwbwrch dal yn ffres yn fy ngho...mae Rod Penrose, y Patholegydd morfilod yn dod i fyny heddiw ynghyd a dau filfeddyg o Lundain i gynnal Post Mortem ar y corff.

## Coler gron y bioden fôr









Piod Môr o wahanol fisoedd y flwyddyn. Dim coler wen yn y ddau lun cyntaf (20 Mehefin a'r 3 Awst yn eu trefn) . Llun tri (tynnwyd 14 Tachwedd), coler wen yn bresennol, yn dynodi diwedd y tymor magu. Llun pedwar: coler wen yn bresennol (prin i'w weld yn y llun) 18 Chwefror.

**Lluniau: Alun Williams a Gwyn Williams**